Safon Bolisi newydd hon.

Nodwyd bod PACS wedi gwneud arolwg bwrdd gwaith i adnabod holl ffynonellau sylweddol posib o EMF o fewn yr isadeiledd trydanol a bydd yn penodi ymgynghorydd allanol i wneud arolwg o'r rhain yn 18/19.

Trafodwyd y Polisi arfaethedig newydd, a **chytunwyd** i gymeradwyo'r Polisi newydd hwn.

**537(b) Defnyddio Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn Ddiogel (Newydd)**

Mae'r Safon Bolisi newydd hon yn nodi'r gofynion sydd ar y Brifysgol, ei Cholegau a'i Gwasanaethau Proffesiynol o ran defnyddio'n ddiogel ffynonellau golau ymbelydredd optegol artiffisial peryglus, yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith.

Nid yw'r Safon Bolisi'n cynnwys 'laserau' pwerus, a chaiff y rhain eu hystyried mewn dogfenGw

**chymeradwywyd** y Polisi diwygiedig hwn.

**537(d) Plant ar Eiddo'r Brifysgol (Diddymwyd)**

Gan fod Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn awr yn cynnwys adran yn benodol ar gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd a diogelwch plant sy'n ymweld â'r Brifysgol, neu'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol (Adrannau 14.1, 14.3 a 14.4), teimlir nad oes angen mwyach am Safon Bolisi fanwl ar wahân. Argymhellwyd cael gwared ar Nodyn Polisi OHSU

Nodwyd os diddymir y Polisi yna cymerir gwybodaeth berthnasol o Nodyn Polisi: OHSU P15 a'i chynnwys mewn enghreifftiau ymarferol newydd a Thaflenni Gwybodaeth ategol. Ni chaiff y Nodyn Polisi ei ddiddymu nes bydd Taflenni Gwybodaeth ategol wedi cael eu cyhoeddi.

Trafodwyd y cynnig i gael gwared ar y Nodyn Polisi **a chytunwyd i gymeradwyo'r cynnig hwn.**

**538. ADRODDIADAU ARCHWILIO/ADOLYGU**

Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi cwblhau'r archwiliad ar Systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn Undeb y Myfyrwyr Bangor.

Ystyriodd yr archwiliad y Trefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch cyffredinol, ynghyd â thair risg benodol: Diogelwch Trelars Cerbydau, Diogelwch Personol Myfyrwyr yn Gwasanaethau Myfyrwyr, a Defnyddio Ysgolion ac Ysgolion Bach.

Sgoriodd yr Undeb 'Arfer Gorau' gyda sgôr drwodd a thro o 96%, gyda dim ond 1 Gweithredu o bwys wedi'i nodi. Gwnaed nifer o argymhellion hefyd i alluogi'r Undeb i wella ei systemau ymhellach.

Drwy gydol yr adroddiad canmolwyd ymrwymiad ac arweinyddiaeth staff ar amiarwg2n a( )-

ogystal ag ymysg staff.

iii. *Hyfforddiant i Staff Uwch:* Cadwyd cyllideb ar gyfer cwrs Iechyd a Diogelwch 'Gweithredu ac Arweinyddiaeth' y flwyddyn academaidd hon. Gan y bydd hyfforddiant i staff uwch yn dod yn KPI sefydliadol yn fuan, anogir holl Benaethiaid, Deoniaid a Dirprwy Is-gangellorion i fynd ar y cwrs.

iv. *KPIs Arweinyddiaeth UCEA:* Bydd KPIs Arweinyddiaeth a Sefydliadol pellach yn cael eu hadolygu yng ngoleuni newidiadau ad-drefnu a meini prawf diweddar a ddisgrifiwyd gan y safon UCEA y mae'r Brifysgol wedi'i mabwysiadu'n ddiweddar.

**540. ADRODDIAD AR FATERION YSTADAU (PACS)**

Cafwyd adroddiad llafar pryd y nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

a. *Cyllideb 18/19:* Mae cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau cydymffurfio statudol gyda gwaith arall yn cael ei flaenoriaethu wedyn. Nodwyd y gall fod gostyngiad pellach o 10% yn y gyllideb PACS.

b. *Ad-drefnu:* Er mwyn gwella'r gwasanaeth, argymhellir symleiddio contractwyr / cyflenwyr cyfredol i gyfanswm o un i chwech.

c. *Adnoddau Staff:* Mae adnoddau PACS o ran staff yn awr wedi gostwng yn sylweddol o'u cymharu â lefelau yn ystod Adolygiad Allanol blaenorol Baker Tilley, gyda'r Rheolwr Asedau a Gofod a'r Uwch Syrfëwr Adeiladau hefyd wedi gadael yn ddiweddar. Er mwyn sicrhau na chaiff tasgau hanfodol eu hesgeuluso, gwnaed dadansoddiad bwlch gyda thasgau'n cael eu hail-bennu; fodd bynnag, mae hyn yn arwain at straen sylweddol ar y staff sy'n weddill. Penodwyd staff o asiantaethau i geisio rhoi sylw i beth o'r diffyg.

d. *Asbestos:* Yn 17/18 cafwyd gostyngiad o 38% yn nifer eitemau asbestos ar y Gofrestr Asbestos (PLANNON).

e. *Achos Busnes dros ad-drefnu:*

**542.** **UNRHYW FATER ARALL**

Nodwyd yr eitemau canlynol:

i. Mae'r Heddlu i gyfarfod â swyddogion y Brifysgol i drafod y cynnydd mewn achosion o fynd i mewn i adeiladau heb ganiatâd, yn arbennig ar draws Safle'r Gwyddorau.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor ddydd Mercher 24 Hydref 2018 am 2.00pm yn Ystafell 3 y Teras.**